Chwarae Dysgu a Thyfu'n Iach

Play Learn and Grow Healthy

Newyddlen y Brosiect

Gwanwyn 2010

Gan ein cyfranogwyr ...

Clwb Caredig

Dros wyliau'r Pasg cafodd plant Clwb Caredig amser gwych yn dysgu sut i bobi bwyd iach. Fel rhan o Brosiect Chwarae Dysgu a Thyfu'n Iach, gwnaeth y plant wahanol fathau o quiche a bisgedi crwst ar siâp ffrwythau a llysiau, gan ddefnyddio'r torwyr crwst a ddarparwyd gan y Prosiect. Cadwyd golwg ar y coginio gan yr Arweinydd Chwarae, Anwen Edwards a'r Bydis. Wedyn, arweiniwyd y plant gan y bydis i wneud nifer o wahanol weithgareddau, gan ddefnyddio'r cardiau adnodd.

Hyfforddi'r Bydis

Gan fod y clwb gofal plant all-ysgol a leolir yn Ysgol Y Bedol bellach wedi ymuno â'r prosiect, rydym wedi bod wrthi'n brysur yn hyfforddi'r bydis newydd â'r cardiau adnodd newydd. Gobeithio y byddan nhw'n mwynhau'r prosiect gystal â'n clybiau eraill, ein gwarchodwyr plant a'n lleoliadau cyn-ysgol.

Rhowch wybod i ni ar info@plgh.org sut hwyl y cewch arni.

Gwobr Arweinydd Chwaraeon

Rydym yn awr wedi ffurfio cysylltiadau ag Ymddiriedolaeth Chwaraeon Prydain parthed eu Gwobrau i Arweinwyr Chwaraeon, a byddwn yn treialu y tymor hwn, gyda phedwar o'r lleoliadau ysgol, ac un gwarchodwr plant. Bydd y plant yn cymryd rhan drwy arwain deg awr o weithgareddau corfforol yn rhinwedd eu rôl fel bydis, er mwyn derbyn eu Gwobr Arweinydd Ifanc. Gall y plant yna godi'u safon i gwblhau eu Gwobr mewn Hyfforddi ar Lefel 1 pan fyddant yn 14.

Edrychwn ymlaen at gyhoeddi enwau'r arweinwyr llwyddiannus yn ein newyddlen nesaf, ac ar ein gwefan, www.plgh.org.

Bydd y staff sydd ynglŷn â'r prosiect yn derbyn hyfforddiant gan ein Rheolydd Prosiect, Karen Pereira, cyn hir, ar fonitro'r modd yr arweinir gweithgareddau.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach ar y Wobr i Arweinwyr Chwarae, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu neu eich Gweithiwr Cefnogi, neu ewch i'r wefan berthnasol, sef www.bst.org.uk

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
MUDIAD YSGOLION MEITHRIN 01267 222622
Wales Pre-school Providers Association Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru 01267 233822
Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS 07977200318 / 01792483031

Swyddfa Gofrestredig: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW
T: 029 2074 1000 F: 029 2074 1047 E: info@clybiauplantcymru.org
Cwmni a gyfyngir drwy warant 4296436
Elusen gofrestredig 1093260

Gair gan ein tîm...

Wales Pre-school Providers Association
Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru

Gair gan ein Gweithiwr Cefnogi ein Cylch Chwarae a'n Gwarchodwr Plant

Mae gwarchodwr plant yn ardal Pentre Cwrt bellach wedi gorffen gweithio ar y prosiect gan fod ei hwyrion/hwyresau wedi dychwelyd i Loegr. Roedd Jean yn fawr ei chefnogaeth i'r prosiect, a byddai bob amser yn ateb y cwestiynau i'r oedolion ar y gliniadur.

Fe fynychodd Jean y nosweithiau grŵp ffocws, a chefais groeso mawr bob tro y bûm yn ei chartref.

Mae Jean a'i gŵr yn awr yn gwerthu'u cartref ac yn dilyn gweddill y teulu yn ôl i Berkshire. Fy nymuniadau gorau iddi. Mae pob un o'r gwarchodwyr eraill yn parhau â'u brwdfrydedd, eu cefnogaeth a'u croeso gwirioneddol dwymgalon.

Bellach ymunodd dau warchodwr plant newydd â ni, un o Borth Tywyn a'r llall o Lanaman, ac rwy'n edrych ymlaen at rwy'n edrych 'mlaen at ffurfio perthynas ragorol â'r ddu. Rwy'n dal i helpu Terena yn y clwb ôl-ysgol, ac mae'n wych gweld y plant yn cymryd rhan drwy'r gliniadur, ac mae'r cyfnod gemau'n un llwyddiannus ym mhob un o'r lleoliadau.

Eleni bûm yn casglu data ar bapur o leoliadau Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda. Rwyf wedi cael croeso cynnes iawn ym mhob rhan o'r sir, ac wedi cyfarfod â hen ffrindiau a chydweithwyr o'r gorffennol ar fy nghrwydradau.

Helene Lovell

Karen Pereira
Rheolydd Prosiect
karenp@clybiauplantcymru.org
07977 200318

Pamela McIntosh
Rheolydd Datblygu Iechyd
pamelam@clybiauplantcymru.org
07977 485993

Terena Davies-Tommason (Clybiau Gofal Plant All-Ysgol)
Swyddog Datblygu Prosiect
terenat@clybiauplantcymru.org
07779 705881

Helene Lovell (Gwarchodwyr Plant a Cylchoedd Chwarae)
Gweithiwr Cefnogi Prosiect
helenel@clybiauplantcymru.org
07891 886501

Tanwen Randell (Cylchoedd)
Gweithiwr Cefnogi Prosiect
tanwen.randell@mym.co.uk
07971 394170



Gair gan ein tîm...

Diweddariad gan Swyddog Datblygu ein Clwb Gofal Plant All-Ysgol

Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS

Diolch i bob un ohonoch chi'r clybiau ôl-ysgol am eich croeso cynnes a'ch brwdfrydedd wrth gymryd rhan yn y Prosiect. Rwyf wedi bod i gasglu'r drydedd rownd o ddata ac i ddosrannu'r set newydd o gardiau ac adnoddau ar Faeth, yn cynnwys clai a thorwyr. Fe wnaeth un clwb ddefnyddio'r torwyr clai i wneud bisgedi crwst ar siâp ffrwythau a llysiau.

Mae'r Bydis erbyn hyn wedi dod yn fwy hyderus yn arwain y plant iau yn eu gwahanol weithgareddau, ac yn eu hannog i roi cynnig ar fwydydd newydd, iach.

Hoffem groesawu'n gynnes, yn ogystal, y clybiau newydd sydd wedi ymuno â'r Prosiect y tymor hwn.

Terena Davies-Tommason

Y Wefan

Mae sampl o'n cardiau adnodd newydd yn awr ar gael ar-lein i'w lawrlwytho. Mewngofodwch ar www.plgh.org, a chan ddefnyddio'r ffurflen gyswllt, rhowch wybod inni eich barn arnynt.

Gair gan ein Gweithiwr Cefnogi Prosiect ym Mudiad Ysgolion Meithrin

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Dymor diwethaf cymerodd 18 Cylch Meithrin ran ym mhrosiect Chwarae, Dysgu a Thyfu'n Iach. Ar hyn o bryd maent wedi derbyn, ac wedi gwerthuso, cardiau adnodd gemau corfforol, a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd ran hyd yma.

Erbyn hyn mae'r cardiau Maeth eisoes wedi eu dosbarthu, ac felly'r cardiau adnoddau corfforol yn nes ymlaen y tymor hwn. Dosberthir y cardiau hefyd i Gylchoedd Meithrin newydd a fydd yn ymuno y tymor yma, ac i Gylchoedd Ti a Fi newydd.

Cofiwch gysylltu â mi os byddwch angen unrhyw wybodaeth bellach.

Tanwen Randell-Davies

Cyfarfodydd Grwpiau Ffocws

Rydym wedi ein plesio'n fawr â'r nifer o'n cyfranogwyr, o blith y plant, a fynychodd y rownd hon o gyfarfodydd. Fel y mae'r set newydd o gardiau adnodd bellach yn barod i gael eu cyflwyno i'r lleoliadau, dyma'r cardiau a fu'n ganolbwynt i'r gweithgareddau. Buont yn boblogaidd iawn hyd yma, ac edrychwn ymlaen at gael eu dosbarthu i'n lleoliadau cyn fawr o dro.

Cafwyd cyfraniadau rhagorol gan y plant, ym mhob un o'r lleoliadau, ac roedd yn ardderchog i weld y cardiau'n cael eu defnyddio. Yn Y Gamfa Wen, darparwyd yr holl weithgareddau gan y plant yng ngofal ein gwarchodwr ym Mhwll Trap, ac fe wnaethant yn siŵr fod yr oedolion yn gwybod sut i gymryd rhan.

I'r rhai ohonoch na all aros i weld yr adnoddau newydd, mewngofnodwch ar www.plgh.org er mwyn lawrlwytho sampl o'r cardiau adnodd newydd.

Can diolch i'r mannau canlynol am ganiatáu i ni gynnal y cyfarfodydd Ffocws: Ysgol Caerfelin, Pencader, Ysgol Pum Heol, Llanelli, Y Gamfa Wen, Coleg y Drindod, Caerfyrddin ac Ysgol Y Bedol, Rhydaman.

Swyddfa Gofrestredig: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW
T: 029 2074 1000 F: 029 2074 1047 E: info@clybiauplantcymru.org
Cwmni a gyfyngir drwy warant 4296436
Elusen gofrestredig 1093260